

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC: CYDBWYLLGOR CRAFFU ADDYSG & DYSGU A
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU) -
1 MAI 2018**

**ADRODDIAD GAN: SWYDDOG CYMORTH BUSNES
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

PRESENNOL: Cynghorydd S. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr: P. Baldwin

D. Bevan

J. Collins

M. Cook

P. Edwards

K. Hayden

S. Healy

R. Hill

J. Holt

H. McCarthy

J. Millard

J. C. Morgan

J. P. Morgan

K. Pritchard

K. Rowson

T. Sharrem

T. Smith

B. Summers

**GYDA: Swyddog Arweiniol Cynhwysiant
Rheolwr Diogelu mewn Addysg
Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Plant
Rheolwr Gwella Addysg
Rheolwr Gwasanaeth - Comisiynu a Datblygu
Gwasanaeth
Cydlynnydd POVA
Swyddog Craffu - Ymgynghorydd**

**A: Ceri Waters – Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure
Cynrychiolydd – Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure**

EITEM	PWNC	GWEITHREDU
1	<p><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
2	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -</p> <p>Cynghorwyr G. A. Davies a L. Parsons</p> <p>Mr. A. Williams - Aelod Cyfetholedig</p>	
3	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
4	<p><u>CYDBWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, BYW LLESOL A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2017.</p> <p>(Cyflwynwyd y Cofnodion er pwyntiau cywirdeb yn unig).</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.</p>	
5	<p><u>DALEN WEITHREDU</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i Ddalen Weithredu y Cydbwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2017, yn cynnwys:-</p> <p><u>Bwlio</u></p>	

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth ddiweddariad a dywedodd na chwblhawyd datblygu WCCIS hyd yma oherwydd fod gwybodaeth wedi ei lledaenu ar draws Cymru a bod Awdurdodau'n ymuno ar wahanol adegau.

Dymunai Aelod longyfarch Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm ar ddod yr Ysgol Gyfeillgar i Dementia gyntaf ym Mlaenau Gwent.

Ffigur 1.1

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'r adroddiad arfaethedig newydd yn dangos ffigurau'r plant hynny'n symud o 'Plant mewn Angen' i 'Amddiffyn Plant'.

Ffigur 1.4

Nodwyd fod Polisi Diogelu'r Ymddiriedolaeth yr un fath ag un yr Awdurdod Lleol a bod 78.6% o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu Lefel 1 a gaiff ei adnewyddu bob 3 blynedd. Hysbysodd y Swyddog yr Aelodau fod gweithdrefn yn ei lle ar gyfer cysylltu'r Heddlu pe byddai achos pryder yng nghyswllt plant mewn Canolfannau Chwaraeon ac y byddai atgyfeiriad yn cael ei gwblhau ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Ffigur 3.2

Nodwyd fod y Tîm Perfformiad yn gweithio ar y rhifau y gofynnwyd amdanynt.

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwella Addysg at y 39 o blant sy'n derbyn addysg yn y cartref ar hyn o bryd a nodwyd y dynodwyd fod 45 o blant yn cael addysg gartref yn 2016/2017. Esboniodd fod Swyddog Lles Addysg yn ymweld â theuluoedd y plant yma a hyd yma ni ddynodwyd bod unrhyw hyn ohonynt mewn risg.

Gofynnodd Aelod os oedd diweddariad ar y cynnig i

	<p>ddatblygu Cofrestr ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref a datblygu protocol cenedlaethol.</p> <p>Atebodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater ond nad oedd diweddariad ar hyn o bryd.</p> <p><u>Hyfforddiant</u></p> <p>Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod 241 aelod o staff, 311 o rai heb fod yn aelodau staff yn ogystal â 26 sefydliad allanol wedi cwblhau hyfforddiant. Dywedodd Aelod fod hyn yn rhagorol..</p> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn y Ddalen Gweithredu.</p>	
-----	<p><u>TREFN YR AGENDA</u></p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y cymerir eitem rhif 7 ar y pwynt yma.</p>	
7	<p><u>GWYBODAETH PERFFORMIAD DIOGELU - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC ADDYSG - EBRILL I RHAGFYR 2017</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i roi gwybodaeth i Aelodau ar Berfformiad Diogelu a gwybodaeth hunan-afarnu ar draws yr Awdurdod Lleol.</p> <p>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.</p> <p><u>Tystiolaeth Perfformiad a Gwybodaeth</u></p> <p>Cyfeiriodd Aelod at y cyfanswm o atgyfeiriadau achos agored a newydd a 2.3 a themlai ei fod yn syndod mawr fod hyn yn gyfystyr â 20 plentyn y dydd. Gofynnodd os oedd galluedd digonol i ddelio gyda'r rhifau hyn. Atebodd y Rheolwr Gwasanaeth drwy ddweud fod</p>	

capasiti yn amlwg yn fater ac y codwyd hynny gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol oedd wedi rhoi adnoddau ychwanegol. Hefyd ailstrwythurwyd y tîm Teuluoedd yn Gyntaf ac mae Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn awr yn gweithio o fewn y tîm. Roedd hefyd gynlluniau tymor hirach e.e. Strategaeth Gostwng Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cyfeiriwyd at y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau plant yn 2.1 yr adroddiad ond nodwyd fod atgyfeiriadau teuluoedd wedi cynyddu. Er nad yw'n anarferol i'r ffigurau hyn amrywio, esboniodd y Swyddog mai'r hyn oedd yn amlwg ym Mlaenau Gwent oedd y nifer o grwpiau mawr o sibliogiaid ac mai hyn oedd yn adlewyrchu ar rifau.

Cyfeiriodd Aelod at Ffigur 2.4 am ddadansoddiad oedran plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a gofyn pa gefnogaeth sydd ar gael i famau a thadau ifanc yn ogystal â mamau beichiog. Dywedodd y Swyddog fod gan y Bwrdd lechyd a bydwagedd ran bwysig wrth ddynodi problemau a chefnogi teuluoedd a hefyd yn cysylltu gyda'r timau Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf sy'n rhoi cefnogaeth gynnar drwy gyrsiau rhianta a grwpiau rhianta. Roedd hefyd gefnogaeth drwy'r Tîm Cefnogi Newid newydd.

Yn dilyn cwestiwn nodwyd fod atgyfeiriadau yng nghyswllt gwahanol grwpiau ethnig a diwylliant er nad oedd hwn yn nifer sylweddol, fodd bynnag mae un ceisiwr lloches yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd.

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Cododd Aelod gonsyrn am y 3 o blant dewis addysg gartref sydd â Datganiad a gofynnodd os oedd cefnogaeth yn ei le. Gofynnodd am sicrwydd y rhoddir cefnogaeth ddigonol i'r plant hyn. Esboniodd Swyddog Arweiniol Cynhwysiant fod plant gyda Datganiad yn gael eu hadolygu'n flynyddol yn yr un ffordd â disgyblion sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd a bod ymgysylltu sylweddol gyda'r teuluoedd drwy'r Uwch Swyddog Lles Addysg. Nid oedd gan unrhyw un o'r plant hyn unrhyw anghenion

corfforol.

Gwybodaeth ar y Gwasanaeth Iechyd

Cyfeiriodd Aelod at ddatganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc a holodd os oedd unrhyw beth yn ei le ym Mlaenau Gwent. Atebodd y Swyddog nad oedd wedi gweld y datganiad gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi eu hyfforddi i weithio yn y maes hwn a rhoi cefnogaeth i ysgolion, hefyd mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau fod dau ELSA yn gweithio o fewn pob ysgol. Esboniodd fod cynllun peilot CAMHS In Reach yn cael ei sefydlu, ac y byddai edrych sut y gellir darparu cefnogaeth ar gyfer disgyblion yn yr ysgol yn ogystal â staff yn rhan o hynny.

Hysbysodd Swyddog Arweiniol Cynhwysiant yr Aelodau fod newidiadau mewn nifer o feysydd yn cynnwys y cwricwlwm, y fframwaith arolygu, y disgwyliad i ysgolion gydweithio, i gyd yn effeithio ar les disgyblion. Dywedodd ymhellach fod Swyddogion Addysg yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu a rhannu arfer da.

Cyfeiriodd Aelod am y ffigur ymyriadau ataliadau corfforol a holodd am nifer yr ymyriadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi symud i'r Awdurdod drwy symudiad wedi'i reoli. Dywedodd y Swyddog fod y ffigurau wedi newid yn ddiweddar, gan eu bod yn cael eu monitro erbyn hyn. Anfonir adroddiadau RPI i'r Rheolwr Diogelu i'w dadansoddi a'u hystyried. Hysbysodd y Swyddog yr Aelodau fod y mwyafrif o ataliadau corfforol yn digwydd yn ein hysgolion arbennig a bod y nifer yn deillio o ysgolion prif ffrwd yn isel iawn.

Gofynnwyd am esboniad am sut mae system cyfrifiadur WCCIS yn gweithio. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod hyn yn yn becyn ar Windows ac yn cymryd lle system flaenorol DRAIG, lle bydd gan bob plentyn ffeiliau unigol lle cedwir eu gwybodaeth bersonol. Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ledled Cymru hefyd

yn defnyddio'r system, a byddai hyn yn galluogi rhannu gwybodaeth. Nododd yr Aelod fod gweithdrefnau'n cael eu safoni ledled Cymru a holodd os gellid ystyried safonau fformat y ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth (MARF). Dywedodd y Swyddog fod yr Awdurdod yn gweithio gyda chydweithwyr ledled Gwent ar hyn, fodd bynnag byddai'n dasg enfawr i safoni ar draws Cymru.

Asesiad Effaith ar Gynigion/Opsiynau

Cyfeiriodd Aelod a bryderon am faterion capasiti Diogelu a dymunai i'r pryderon hyn gael eu hychwanegu at yr argymhelliad. Cytunodd Aelod arall i gynnig Opsiwn 2 gyda'r ychwanegiad hwn yn ogystal â'r llwyth gwaith.

Ffigur 2.3 Categoriâu Camdriniaeth

Cyfeiriodd Aelod at y graff ar dudalen 58 y categorïau camdriniaeth a dywedodd y bu esgeulustod yn broblem yn hanesyddol; gofynnodd os bu cynnydd mewn camdriniaeth emosiynol ac os oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem. Esboniodd y Swyddog nad oedd yn rhwydd dynodi camdriniaeth emosiynol ond y gallai fod yn uchel yn nhermau esgeulustod. Oherwydd bod camdriniaeth emosiynol yn anodd ei ganfod, gofynnodd Aelod os oes hyfforddiant priodol ar gael. Cadarnhaodd y Swyddog fod hyfforddiant ar gael i'r holl staff a bod cyrsiau ar gael.

Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd unrhyw atgyfeiriadau camdriniaeth rhywiol wedi'u cofnodi. Cadarnhaodd y Swyddog bod camdriniaeth rywiol yn cael ei fonitro'n barhaus ond bod y niferoedd yn isel ym Mlaenau Gwent.

Nodwyd bod y Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd y byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn edrych ar faterion capasiti mewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yng nghyswllt diogelu.

PENDERFYNWYD argymell, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried opsiwn arall sef:

- Bod y Pwyllgor Gweithredol yn gofyn i'r

	<p>Cyfarwyddiaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol i ddynodi unrhyw broblemau capasiti o fewn y Cyfarwyddiaethau (i gynnwys ysgolion) yng nghyswllt diogelu plant a phobl ifanc.</p>	
<p>6</p>	<p><u>GWYBODAETH PERFFORMIAD DIOGELU OEDOLION AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 RHAGFYR 2017</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth a gyflwynwyd i roi gwybodaeth ar Berfformiad Diogelu a Hunanarfarnu ar draws yr Awdurdod Lleol i Aelodau.</p> <p>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Comisiynu a Datblygu am yr adroddiad a thynnu sylw at Ddiben yr Adroddiad yn ogystal â'r Cefndir a'r Cyd-destun.</p> <p><u>Diweddariad o Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn Chwefror 2017</u></p> <p>Cyfeiriodd Aelod at yr anghysonderau a all godi yng nghyswllt gwneud penderfyniadau a chyngor gan Reolwyr Arweiniol Dynodedig a holodd pam y byddai anghysonderau'n digwydd. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth, Comisiynu a Datblygu fel arfer yn ymwneud â materion hyfforddiant fodd bynnag dynodwyd dulliau dysgu i liniaru hyn.</p> <p><u>Sefyllfa Bresennol - Pwynt 4 ar y Siart</u></p> <p>Gofynnodd Aelod am esboniad ar statws yr honiad - Amhriodol ar gyfer y broses ddiogelu - 241. Ymatebodd y Swyddog nad yw atgyfeiriadau yn briodol bob amser fodd bynnag cânt eu cymryd o ddifri calon hyd yn oed er nad ydynt yn cyrraedd y trothwy, byddent yn dal i gael cynnig cefnogaeth briodol gan asiantaethau eraill.</p> <p>Cododd Aelod bryder am oedolion agored i niwed dan Credyd Cynhwysol a digidol diodyn, a allai o bosibl fod heb arian am hyd at 8 wythnos am arian; gofynnodd os y cynhelir sgysrsiau gyda'r Adran Budd-daliadau</p>	

Cadarnhaodd y Swyddog fod hwn yn achos pryder, fodd bynnag roedd hyfforddiant am hyn ar gael ac mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd. Dywedodd fod trefniadau monitro a chynlluniau wrth gefn yn eu lle i ddelio gyda hyn.

Cefndir a Chyd-destun

Cyfeiriwyd at 1.4 a 1.10 yr adroddiad a gofynnwyd cwestiwn os oedd capasiti hefyd yn broblem o fewn Gwasanaethau Oedolion gan fod pryder y byddai lefelau atgyfeiriadau yn cynyddu. Dywedodd y Swyddog fod cynllun gweithredu yn ei le ac mae'n anochel y byddai codi ymwybyddiaeth yn cynyddu lefelau atgyfeiriadau. Fodd bynnag mae hyfforddiant priodol yn ei le ac mae'r gwasanaeth yn ymdopi ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw faterion capasiti.

Grŵp Diwygio Llesiant

Gwnaed cynnig a chytunwyd argymell i'r Pwyllgor Gweithredol i ailgyflwyno'r Grŵp Diwygio Llesiant.

PENDERFYNWYD argymell, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo Opsiwn 1 sef:

- Bod Aelodau yn ystyried ac yn derbyn cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi ystyriaeth i'r gofynion cyfredol ac arfaethedig a roddir ar y Tîm Diogelu Oedolion; a;
- Ailgyflwyno Grŵp Diwygio Llesiant.